

Cronfa Waddol Cynnal

Meini prawf ariannu: Unigolion



Mae Cronfa Waddol Cynnal yn darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau addysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn, gan gynnwys hyrwyddo addysg i blant o dan 18 oed.

Mae'r gronfa yn gofyn am geisiadau gan:

- Gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant, pobl ifanc a phlant oed ysgol yn y blynyddoedd cynnar
- Gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol/coleg sy'n cefnogi hyfforddiant galwedigaethol, materion iechyd a byw'n iach
- Prosiectau cynhwysiant addysg gyda chefnogaeth i fyfyrwyr unigol talentog ar ffurf ysgoloriaethau, cymorth teithio, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol

Grantiau ar gael

Mae grantiau o £1,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd ar gael i unigolion.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Unigolion hyd at 18 oed sy'n byw yng Ngwynedd neu Ynys Môn, neu unigolion hyd at 18 oed sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yng Ngwynedd neu Ynys Môn ar ddyddiad y cais.



Sut i ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig. (Fel sy'n ofynnol ar gyfer grantiau aml-flwyddyn)
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid sicr yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cynnal nawr yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid 1 flwyddyn ar gyfer prosiectau neu eitemau cyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, dylech ddangos yr angen a'r effaith o gael cyllid am nifer o flynyddoedd o fewn eich ffurflen gais. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.